## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 30 Mehefin 2004

## Cynigion a Gyflwynwyd ar 23 Mehefin 2004

### Y Ddadl Fer

**NDM2022 William Graham (Dwyrain De Cymru);** Gwastraff Peryglus - Pwy yng Nghymru Wnaiff Gyffwrdd ag Ef?

**NDM2017 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i adolygu hynt y broses o ddatblygu polisi trafnidiaeth integredig a chynaliadwy.

**NDM2016 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir eu dirprwyo yn y modd hwn yn ôl y gyfraith.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei wneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n briodol.

*Gellir dod o hyd i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ar y Rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn:*
http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040005.htm

*Gellir dod o hyd i Nodiadau Esboniadol y Ddeddf ar y Rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn:*
*http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/en2004/2004en05.htm*

**NDM2019 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2004 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2004.

**NDM2020 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2004.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad wedi'i osod gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii).*

**NDM2021 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn ailddatgan ei ymrwymiad i weithredu argymhellion yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

2. Yn croesawu'r gwaith da a wnaed ers i'r Adolygiad gael ei gyhoeddi ym Mehefin 2003

3. Yn cydnabod bod diwygio ac adnewyddu llwyddiannus yn y gwasanaethau iechyd yn dibynnu ar berchnogaeth leol o fewn fframwaith genedlaethol eglur.

Cliciwch ar y Cysylltau isod i weld yr "Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, Adroddiad Tîm y Prosiect a gynghorwyd gan Derek Wanless, Mehefin 2003"

Saesneg
http://www.wales.gov.uk/subieconomics/content/hsc/review-e.pdf

Cymraeg
http://www.cymru.gov.uk/subieconomics/content/hsc/report-w.pdf

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 24 Mehefin 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM2019**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gyflwyno profion llygaid am ddim i gyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno presgripsiynau am ddim.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno profion llygaid am ddim i bawb yng Nghymru, ac i drafod â'r Gweinidog Iechyd yn San Steffan y posibilrwydd o ddatganoli pwerau o'r fath.

**NDM2021**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at fethiant y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddangos arweiniad ar ôl iddi wrthod creu Cynllun Cenedlaethol sy'n cynnig cyfeiriad strategol ar gyfer diwygio ac adnewyddu'r Gwasanaeth Iechyd ers cyhoeddi'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mehefin 2003.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 25 Mehefin 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM2021**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

' ac argymhellion adroddiad y Comisiwn Archwilio, Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.'

Defnyddiwch y cyswllt isod i weld adroddiad y Comisiwn Archwilio "Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru":

http://ww2.audit-commission.gov.uk/wales/ig/pdf/w-health-soc-care-wales-final.pdf

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

' ac yn gresynu at fethiant parhaus y Gweinidog i gynhyrchu fframwaith cenedlaethol clir.'

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 3 yn gyfan a rhoi yn ei le:

'3. Yn gresynu at y diffyg o ran diwygio ac adnewyddu llwyddiannus yn y gwasanaethau iechyd sydd yn dibynnu ar berchnogaeth leol o fewn fframwaith genedlaethol eglur.'

**NDM2017**

**1.Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu 'Yn croesawu'r' a rhoi 'Yn nodi'r' yn ei le.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn gresynu at y pwyslais a roddir ar annog pobl i beidio â defnyddio ceir cyn bod dewis dibynadwy arall ar gael a'r oedi gyda phrosiectau ffyrdd hanfodol megis ffordd liniaru'r M4 sy'n hanfodol ar gyfer ffyniant economaidd Cymru.'

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymrwymo i sefydlu cyswllt cyflym â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.'

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn nodi barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai ychydig o deithwyr fyddai'n defnyddio gwasanaeth awyr o fewn Cymru, mai ychydig o swyddi fyddai'n cael eu creu, ac mai bychan fyddai'n manteision economaidd ac yn annog Gweinidogion i ailystyried y cynigion.'

**NDM2017**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu ‘Yn croesawu’r’ a rhoi ‘Yn nodi’r’ yn ei le.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno adroddiad manwl ar hynt y gwaith.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn galw ar y Gweinidog i drafod â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod darpariaethau’r Mesur Trafnidiaeth yn datganoli pwerau pellach a fydd yn galluogi’r Llywodraeth i ddatblygu mecanweithiau priodol i gydgysylltu trafnidaeth gyhoeddus yng Nghymru yn genedlaethol, a datblygu cysylltiadau trawsffiniol yn effeithiol.’

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn cytuno ei bod yn hanfodol trosglwyddo trefniadau gweinyddol y Cymhorthdal Rheilffyrdd ar gyfer Cymru i’r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn gallu datblygu polisi trafnidiaeth integredig a chynaliadwy.’

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn galw ar y Gweinidog i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cael y pwer i benodi dau gynrychiolydd o Gymru ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) neu unrhyw gorff a fydd yn ei olynu, y pwer i’r Cynulliad Cenedlaethol roi cyfarwyddyd i gorff o’r fath, a chael swyddfa i’r corff hwnnw yng Nghymru.’

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu polisi trafnidaeith integredig a chynaliadwy ac yn cydnabod bod y Mesur Trafnidiaeth (Cymru) Drafft yn gam i’r cyfeiriad

cywir.

Gallwch weld y Mesur Trafnidiaeth (Cymru) Drafft drwy'r cyswllt isod:

http://www.ossw.wales.gov.uk/transport_bill.pdf

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ehangu gwasanaethau Rheilffyrdd y Cymoedd er mwyn helpu i hybu economi a ffyniant yr ardal Amcan Un.

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod angen i'r Cynulliad, er mwyn mynd ati o ddifrif i sicrhau cynllun trafnidiaeth integredig a chynaliadwy, gael y pwer i benodi cynrychiolwyr o Gymru ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) ac yn credu y dylai'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol gael presenoldeb yng Nghymru.